Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
Delyth.Jewell@senedd.cymru
17/01/2023

Annwyl Gadeirydd,

**Galwad am ragor o dystiolaeth ar oblygiadau data y Cyfrifiad i'r fframwaith deddfwriaethol sy'n cefnogi'r Ddarpariaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg**

Mae canlyniadau'r Cyfrifiad yn siomedig, ac maent yn profi rhai o brif negeseuon ein tystiolaeth ysgrifenedig ym mis Medi. Nid oes angen anobeithio, ond mae rhaid bod yn onest ynghylch yr hyn y mae'r dystiolaeth yn ei amlygu, ac ynghylch yr heriau amlwg sy'n bodoli. Mae bylchau a gwendidau amlwg yng ngweithrediad elfennau allweddol o strategaeth Cymraeg 2050. Y pwysicaf a'r mwyaf arwyddocaol o'r rhain yw cynllunio'r gweithlu addysg ddwyieithog.

***Pa heriau y mae'r gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn eu hachosi i ddarpariaeth awdurdodau lleol o ran y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg?***

Ar lefel genedlaethol nid oes llawer o gynnydd wedi bod yn y niferoedd sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg dros y ddegawd ddiwethaf. Mae canlyniadau'r cyfrifiad yn adlewyrchu unwaith eto mai cyfyngedig iawn yw cyfraniad y sector cyfrwng Saesneg i'r nod o greu siaradwyr Cymraeg newydd. Os ydym am wyrdroi'r sefyllfa hon yna mae angen i'r Llywodraeth gryfhau'n sylweddol elfennau o ddeddfwriaeth a pholisi sy'n cefnogi'r CSCAau. Nid yw'n opsiwn parhau â'r un math o strategaethau a pholisïau sydd yn amlwg heb weithio hyd yma. Roedd cyflwyno'r fframwaith CSCA newydd yn gam pwysig ymlaen, ac mae nawr angen i'r Llywodraeth wneud popeth yn ei gallu i rymuso holl elfennau allweddol y cynlluniau strategol hyn. Mae hyn yn cynnwys penderfyniadau cyllido prosiectau cyfalaf addysg, y gyfundrefn ddeddfwriaethol ar gyfer symud ysgolion ar hyd continwwm ieithyddol, a chyflwyno mecanwaith deddfwriaethol er mwyn codi disgwyliadau a safonau mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Nid oes siawns i ddim o'r uchod lwyddo oni bai fod y Llywodraeth yn datblygu strategaeth ddigonol ar gyfer cynnydd radical yn nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

***Pa heriau sydd o'n blaenau wrth gynllunio a datblygu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yng ngoleuni data'r Cyfrifiad, ac yn fwy penodol, yr her o sicrhau bod disgyblion yn y sector cyfrwng Saesneg yn rhugl wrth iddynt adael yr ysgol?***

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Nid ydym o'r farn bod gan y Llywodraeth ar hyn o bryd strategaeth wirioneddol ar gyfer cyflawni'r nod o sicrhau bod disgyblion y sector cyfrwng Saesneg yn siaradwyr Cymraeg rhugl wrth iddynt adael yr ysgol. Mae'n fwlch amlwg yn y strategaeth a'r taflwybr i gyrraedd miliwn o siaradwyr. Fel roedd ein tystiolaeth flaenorol yn manylu, mae angen gosod mecanwaith deddfwriaethol eglur a chadarn er mwyn gweithredu'r polisi allweddol hwn.

Un o'r prif rwystrau sy'n llesteirio'r agenda polisi uchod yw diffyg gweithlu sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

***Pa ystyriaethau ariannu a allai fod yn angenrheidiol yn y dyfodol i gefnogi datblygiad y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn llawn, o ystyried y gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg?***

Un ystyriaeth ariannu amlwg yw'r arian cyfalaf sylweddol mae'r Llywodraeth yn ei ddyrannu i awdurdodau lleol at bwrpas agor ac ad-drefnu ysgolion. Mae angen i'r Llywodraeth wneud popeth yn ei gallu i sicrhau bod yr arian hwn yn hwyluso amcanion Cymraeg 2050 ac amcanion lleol y CSCAau i'r eithaf.

Mae angen datblygu pecyn cyllid a chefnogaeth benodol i ysgolion sy'n ymrwymo i symud ar hyd y continwwm. Mae'n bosib y byddai defnydd llawer mwy strategol o gyllidebau presennol y Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg, Grant Gwella Addysg a Grantiau Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol yn rhan o'r ateb yma.

Yr ystyriaeth ariannol sydd â'r potensial i gael y traweffaith mwyaf yw sicrhau gweithlu addysg cynyddol ddwyieithog. Mae'r gweithlu addysg yn gwbl allweddol i lwyddiant y CSCAau, ac yn fwy cyffredinol i weddill amcanion a thargedau Cymraeg 2050. Mae o fewn gallu'r Llywodraeth i gyflwyno strategaeth feiddgar er mwyn darparu hyfforddiant ieithyddol i'r holl weithlu addysg. Nid yw'n ormodiaeth dweud bod angen chwyldro yn y ffordd rydym yn datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu addysg. Heb ymyrraeth sylweddol, mae'n debyg y gwelwn ni gylch diddiwedd lle bydd prinder gofalwyr, athrawon a darlithwyr dwyieithog yn rhwystr parhaus rhag sicrhau cynnydd yn nifer yr unigolion sy'n gadael yr ysgol yn medru siarad a defnyddio'r Gymraeg. Mae'r Bil Addysg Gymraeg yn gyfle i dorri'r cylch yma, ac i sicrhau bod gweddill amcanion Cymraeg 2050 o fewn ein cyrraedd.

Yr eiddoch yn gywir,

**Lowri Williams**

Cyfarwyddwr Strategol, Comisiynydd y Gymraeg